

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
A GYNHALIWDYD AM 9.30AM DDYDD MAWRTH 26 IONAWR 2021 DRWY TEAMS**

Yn bresennol: Dr Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes).

Amser dechrau: 09:37

Amser gorffen: 10:30

Ymddiheuriadau: Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad o'r cyfarfod diweddar â Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LIC). Crybwyllwyd bod gwaith cyfreithiol wedi'i gyfyngu gan COVID-19 o hyd, ac y gallai'r cyfnod clo ohirio'r etholiadau sydd ar ddod. Mae LIC wedi cael gohebiaeth yn ddiweddar y mae'n ei thrin fel cais Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas ag Arolwg Etholiadol Caerdydd hefyd.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newidiadau.

4. Materion yn codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 19 Ionawr 2021 gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd a nodwyd cynnydd cyfredol ar y materion canlynol:

- **(Mater 1) Rhaglen Newid**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddiariad ar hyfforddiant staff a'r rhaglen *'Insights Discovery'* newydd. Caiff y 'Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd' sydd wedi'u cynllunio ar gyfer mis Chwefror eu gohirio tan yn hwyrach yn y flwyddyn oherwydd y cyfyngiadau cyfredol.

- **(Mater 2) Cytundeb Fframwaith**

Canslwyd cyfarfod cyswllt mis Rhagfyr gan yr Is-adran Noddi, a bydd cyfarfod newydd yn cael ei gynnal ym mis Chwefror.

- **(Mater 3) Arolygon Etholiadol – Caerdydd, Caerffili a Sir y Fflint**

Darparwyd nodiadau briffio ychwanegol gan LIC yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer Caerdydd, Caerffili a Sir y Fflint, lle'r oedd LIC wedi cael cynrychiolaethau uniongyrchol ar ôl cyhoeddi'r Argymhellion Terfynol. Mae'r Comisiwn wedi ysgrifennu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol hefyd mewn perthynas ag Arolwg Etholiadol Caerdydd.

- **(Mater 4) Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

Ni chafwyd unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth newydd er 1 Rhagfyr 2020.

- **(Mater 5) Diweddiariad Staffio**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Rhydian Fitter, Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd y Comisiwn, i'w gyfarfod cyntaf o'r Comisiwn. Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod bod Swyddog Arolygon ar secondiad i'r Comisiwn a bod asiantaeth, BSO, wedi cyrraedd diwedd ei contractau ar 31 Rhagfyr 2020. Roedd y Dirprwy Brif Weithredwr hefyd wedi dechrau ei gyflogaeth â Swyddfa'r Cabinet ac wedi gadael y Comisiwn yn swyddogol ar 10 Ionawr 2021. Mae'r Comisiwn wedi recriwtio dau Swyddog Cymorth Tîm yn ddiweddar, a fydd yn dechrau ar 1 Mawrth.

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn anfon llythyr ffurfiol at y cyn Dirprwy Brif Weithredwr yn diolch iddo am ei wasanaeth a'i gyfraniad i'r Comisiwn.

4.3. **Gweithredu:** Prif Weithredwr i anfon manylion am gyflogaeth y Dirprwy Brif Weithredwr at y Cadeirydd drwy'r e-bost.

4.4. **Gweithredu:** Prif Weithredwr i ymestyn yr hyfforddiant *'Insights Discovery'* i'r Comisiynwyr.

5. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Ionawr 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

- 5.2. **Nodwyd** bod dau arolwg etholiadol yn unig i'w cwblhau o hyd. Roedd cyfnod drafft arolwg Sir Fynwy wedi dechrau, gyda dyddiad cau o 10 Mawrth ar gyfer yr ymgynghoriad, a chafwyd pedair cynrychiolaeth hyd yn hyn. Roedd Adroddiad Terfynol Bro Morgannwg yn cael ei argraffu a byddai'n cael ei gyhoeddi'n electronig ar 4 Chwefror, gyda chopïau papur yn cael eu dosbarthu wedi hynny.
- 5.3. Trafodwyd Arolwg Etholiadol Caerdydd a'r gwrthwynebiadau iddo.
- 5.4. Trafodwyd y Tabl Dadansoddi Nod Meintiau Cynghorau.
- 5.5. **Gweithredu:** Pennaeth Polisi a Rhaglenni i ddiweddarau'r Tabl Dadansoddi Nod Meintiau Cynghorau erbyn y cyfarfod nesaf.
- 5.6. Trafodwyd y Gofrestr Risg Arolygon a ph'un a oes angen ailystyried y sgôr ar gyfer Arolygon Etholiadol a gwblhawyd.
- 5.7. **Gweithredu:** Pennaeth Polisi a Rhaglenni i archwilio opsiynau yn ymwneud â'r sgôr risg ar gyfer Arolygon Etholiadol a gwblhawyd ar gyfer y Gofrestr Risg.

6. Adroddiad ar y Gyllideb

- 6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Ionawr 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 6.2. **Nodwyd** mai'r tanwariant ar ddiwedd mis Rhagfyr oedd £11,500 ac y disgwyliwyd y byddai'r gwariant diwedd blwyddyn amcangyfrifedig tua'r un fath. Fodd bynnag, roedd arbedion diweddar o £6,000 ar y porth arolygon a gohirio'r Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd i staff yn golygu y gallai'r gwariant diwedd blwyddyn fod yn sylweddol llai, a fyddai'n gadael mwy o danwariant nag yr amcangyfrifwyd yn flaenorol. Crybwyllodd y Rheolwr Cyllid bod mater yn ymwneud â thaliadau defnyddwyr cronfa ddata Microsoft, a allai gynyddu i £1,000 fesul aelod staff, ond cyllidwyd ar gyfer hyn felly nid oedd unrhyw risg o orwariant.
- 6.3. Trafodwyd y mater o gostau cyfreithiol parhaus, a rhoddwyd y Rheolwr Cyllid sicrwydd y byddai'r Comisiwn yn gallu bodloni'r costau ychwanegol hyn o fewn y dyraniad cyllideb cyfredol.

7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

- 7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Ionawr 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 7.2. **Nodwyd** bod y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf wedi'u cynnwys ar y Gofrestr.
- 7.3. **Cytunwyd** y dylid ychwanegu rhyw fath o fesurau lliniaru at CR2, gan y gallai'r Llywodraeth Cymru ofyn i'r Comisiwn wneud rhywfaint o waith ychwanegol ar rai o'r arolygon etholiadol.

8. Archwiliad Mewnol – Materion Effeithiolrwydd Gweithredol

- 8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Ionawr 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 8.2. **Nododd** y Comisiwn y chwe Mater Effeithiolrwydd Gweithredol a awgrymwyd gan yr Archwilydd.
- 8.3. **Gweithredu:** Rheolwr Cyllid i roi diweddariad ar roi'r chwe Mater Effeithiolrwydd Gweithredol ar waith ym mis Mawrth.

9. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol (Diweddariad Llafar)

- 9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.
- 9.2. **Nodwyd** bod staff yn parhau i weithredu drwy weithio gartref ag ymweliadau hanfodol â'r swyddfa yn unig, a bod popeth yn mynd yn dda. Byddai'r trefniadau cyfredol yn parhau ar waith nes i LIC godi'r cyfyngiadau.

10. Calendr Digwyddiadau

- 10.1. **Nododd** y Comisiwn gynnwys y Calendr.
- 10.2. **Nodwyd** y byddai cyfarfod ar-lein â'r Comisiwn Etholiadol, ar gyfer aelodau'r bwrdd a staff, yn cael ei gynnal ar ôl y cyfarfod heddiw.
- 10.3. **Gweithredu:** Prif Weithredwr i newid cyfarfod CFFDLC o 15 Ebrill i 13 Ebrill.

11. Unrhyw Fater Perthnasol Arall

- 11.1. Trafodwyd y mater o fwydo gwerthusiadau'r Comisiynwyr i'r Arolwg Staff blynyddol.
- 11.2. **Gweithredu:** Prif Weithredwr i roi adroddiad ar y mater hwn yn y cyfarfod nesaf.
- 11.3. Ar ôl i'r cyfarfod hwn ddod i ben, mynychodd yr holl Gomisiynwyr a'r Ysgrifenyddiaeth Ddosbarth Meistr y Comisiwn Etholiadol.

12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 23 Chwefror 2021